## LLWYBR

Mae plentyn, ei riant, ysgol neu weithiwr proffesiynol arall yn mynegi pryder am ADY

↓

Ysgol yn penodi person arweiniol

↓

Cesglir gwybodaeth am y plentyn gan y rheiny sy'n ei adnabod orau

↓

Caiff yr holl wybodaeth a gasglwyd ei rhannu a'i thrafod yn y cyfarfod sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

↓

A oes gan y plentyn anhawster dysgu neu anabledd sy'n gofyn am ddarpariaeth sy'n ychwanegol at yr hyn sydd ar gael ar hyn o bryd neu sy'n wahanol iddo?

**OES i ADY**

Caiff CDU ei lunio gyda chi, eich plentyn a'r holl weithwyr proffesiynol perthnasol

- Os nad oes unrhyw bryderon ynglŷn â'r CDU, bydd yr ysgol yn ei gynnal ac yn ei adolygu bob blwyddyn
- Os nad ydych yn hapus gyda chynnwys y CDU siaradwch â'ch cydlynydd dynodedig gyda golwg ar ddatrys y broblem →

**NAC OES i ADY**

Bydd yr ysgol yn parhau i gefnogi eich plentyn ac yn dweud wrthych sut y bydd yn gwneud hyn

↓

Os nad ydych yn cytuno â phenderfyniad yr ysgol o hyd, cysylltwch â Llinell Gymorth a Chyngor ADY yr Awdurdod Lleol ar; Ffôn: 02920 872 731 E-bost: LlinellGymorthADY@caerdydd.gov.uk

Gall y broses gyfan gymryd hyd at 35 diwrnod ysgol.

UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION

CARDIFF CAERDYDD

Crëwyd Hydref 2023

**Taflen 2**

Gwybodaeth i rieni

# Canllaw i'r BROSES MEWN YSGOLION ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae Awdurdod Lleol Caerdydd yn annog dysgwyr, rhieni, ysgolion, lleoliadau a gweithwyr proffesiynol i weithio mewn partneriaeth.

UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION

CARDIFF CAERDYDD

ADYTA: Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2018 Fframwaith cyfreithiol newydd sy'n newid y ffordd y mae dysgwyr ag ADY yn cael eu cefnogi.

## Beth yw Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)?

Mae gan berson Anghenion Dysgu Ychwanegol os oes ganddo anhawster dysgu neu anabledd (pa un a yw'r anhawster dysgu neu'r anabledd yn deillio o gyflwr meddygol ai peidio) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol. Gweler taflen 1 am ragor o wybodaeth.

## Person Arweiniol

Byddwch yn cael enw a manylion cyswllt y person yn yr ysgol a fydd yn eich cefnogi chi a'ch plentyn drwy'r broses ADY gyfan.

## Beth sy'n digwydd mewn Cyfarfod sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn?

Byddwch chi a'ch plentyn yn cael eich gwahodd i'r ysgol i fynd i gyfarfod sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Gofynnir i bobl eraill sy'n adnabod eich plentyn gan gynnwys athrawon, athrawon arbenigol, gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr iechyd proffesiynol fynd i'r cyfarfod neu anfon adroddiadau i gyfrannu eu barn. Gyda'ch gilydd byddwch yn trafod eich plentyn ac yn penderfynu a oes ganddo ADY sy'n gofyn am DDdY.

Gweler taflen 3 am ragor o wybodaeth.

## Beth yw Cynllun Datblygu Unigol (CDU)?

Os oes gan eich plentyn ADY bydd CDU yn cael ei baratoi ar sail y wybodaeth a rannwyd yn y cyfarfod sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae CDU yn gynllun y cytunwyd arno sy'n nodi sut y caiff eich plentyn gydag ADY ei gefnogi a chan bwy. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yr ysgol yn paratoi ac yn adolygu CDU.
Bydd CDU yn cynnwys:

- Gwybodaeth gyffredinol (enw, oedran, cyfeiriad ac ati)
- Proffil Un Tudalen yn tynnu sylw at yr hyn sy'n bwysig i'ch plentyn a'r ffordd orau y gall yr ysgol ei gefnogi a diwallu ei anghenion
- Disgrifiad o ADY eich plentyn
- Yr hyn y bydd yr ysgol yn ei ddarparu sy'n wahanol neu'n ychwanegol at yr hyn sydd ar gael ar hyn o bryd (DDdY).
- Cofnod o wybodaeth
- Llinell amser o ddigwyddiadau allweddol
- Trefniadau Pontio a Thrafnidiaeth Gweler taflen 4 am ragor o wybodaeth

## Adolygu CDU

Rhaid adolygu'r CDU cyn pen un flwyddyn galendr ond gellir ei adolygu'n gynharach os bu newid sylweddol yn yr amgylchiadau. Bydd y cyfarfod adolygu yn dilyn fformat tebyg i'r cyfarfod cyntaf sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

## Beth os ydw i'n anghytuno?

Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch cynnwys y CDU, siaradwch â'ch Cydlynydd Dynodedig yn gyntaf, a bydd yn gallu eich helpu. Os na allwch ddatrys eich pryderon neu broblemau, mae gan yr awdurdod lleol bobl a all helpu. Gweler manylion cyswllt Llinell Gymorth a Chyngor ADY Caerdydd isod.

Os yw'r anghytundeb yn ymwneud ag asesiad, triniaeth neu wasanaeth y GIG, dylech siarad â'ch darparwr iechyd yn gyntaf. Os bydd unrhyw anghytundeb heb ei ddatrys, ewch i dudalen Gweithio i Wella y wefan www.wales.nhs.uk

## Eiriolaeth

Os oes angen cymorth a chefnogaeth ychwanegol arnoch mae hyn ar gael oddi wrth eiriolwr. Eiriolwr yw rhywun a fydd yn mynychu cyfarfodydd gyda chi ac yn siarad ar eich rhan. Gallant fod yn ffrind, aelod o'r teulu neu o asiantaeth broffesiynol. Os oes angen eiriolwr proffesiynol arnoch, cysylltwch â SNAP Cymru.

**0808 801 0608**
**enquiries@snapcymru.org**
**www.snapcymru.org/contact**

## Gwybodaeth a Chyngor gan Awdurdod Lleol Caerdydd

I gael unrhyw wybodaeth am ADY neu CDUau, cysylltwch â'r Llinell Gymorth ADY:

**www.caerdydd.gov.uk/AD**
**029 2087 2731**
**LlinellGymorthADY@caerdydd.gov.uk**

## Cyswllt a Gwybodaeth

**Llywodraeth Cymru: www.llyw.cymru**
**Tribiwnlys Addysg Cymru: www.educationtribunal.gov.wales**